Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Partneriaethau**
Dyddiad y cyfarfod	**7 Gorffennaf 2022**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Cynghorydd Rhys Thomas Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) Ann Lloyd (Pennaeth Cymorth Busnes Interim GCC)**
Awdur yr Adroddiad	**Nigel Jones / Lisa Harte / Mark Dixon**
Teitl	**Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a rhoi'r cyfle i aelodau archwilio effeithiolrwydd y gwasanaeth amlddisgyblaethol digartrefedd a weithredwyd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i archwilio effeithiolrwydd y dull Corfforaethol ar draws gwasanaeth, wrth fynd i'r afael â digartrefedd fel cyfrifoldeb ehangach y Cyngor ac nid Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn unig.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y camau a gymerwyd ar Adroddiad Archwilio 'Darparu Llety i'r Digartref', (Rhagfyr 2020) a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2021.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. I roi sicrwydd i'r Pwyllgor Craffu bod gweithredu'r dull Corfforaethol ar draws gwasanaeth a gwasanaeth digartrefedd amlddisgyblaethol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ddigartrefedd a chymorth tai ac yn cyfrannu at nod y Gwasanaeth Atal Digartrefedd i sicrhau bod pawb yn cael ei ddiogelu a'i gefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion.

3.2. Bod y Pwyllgor Craffu yn adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu'r archwiliad a phenderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau diweddaru pellach ynglŷn â chynnydd o ran y cynllun gweithredu gwelliant neu

gyfeirio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y Prif Archwilydd Mewnol wedi darparu crynodeb o'r cynnydd a wnaed i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Mawrth 2022 a bydd yn darparu adroddiad diweddariad ar 27 Gorffennaf.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ers Mawrth 2020 mae'r nifer o aelwydydd sydd mewn llety brys dros dro wedi parhau yn oddeutu 180. Wrth i ni chwilio am lety camu ymlaen parhaol ar gyfer y sawl mewn llety dros dro brys, mae gennym hefyd aelwydydd newydd sy'n datgan eu bod yn ddigartref, gan fod o dan 35 yn parhau'n gyfran uchel o fewn llety brys.

4.2. Mae aelwydydd mewn llety brys dros dro yn aros yn hirach na chyn y Covid, gan fod yna ddiffyg llety symud ymlaen parhaol addas iddynt symud. Yn ystod y 18 mis diwethaf rydym wedi sicrhau tenantiaethau ar gyfer 99 aelwyd mewn tai cymdeithasol ar ôl atal y Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol, ble roedd dros 50% wedi dod o bortffolio Tai Cymunedol Sir Ddinbych.

4.3. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer newid i Ddull Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru, mae defnydd o lety dros dro brys o ansawdd da yn rhan annatod o'r cynllun. Rydym angen sicrhau drwy'r dull corfforaethol a darparu'r gefnogaeth gywir i aelwydydd digartref ein bod yn lleihau faint o amser sy'n cael ei dreulio mewn llety brys.

4.4. Mae'r Cyngor yn cymryd camau mwy strategol a chorfforaethol ar gyfer digartrefedd sy'n cael ei yrru gan dîm trawsadrannol o Benaethiaid Gwasanaeth o dan arweiniad y Prif Weithredwr. Mae llety dros dro brys mwy addas sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y Cyngor yn cael ei roi ar waith i leihau'r defnydd o sefydliadau Gwely a Brecwast a gwestai a bydd hefyd yn ei gwneud yn haws i gleientiaid gael mynediad i wasanaethau cynnal. Rydym wedi prynu Epworth Lodge yn Y Rhyl i ddarparu 8 uned o lety brys dros dro i deulu, disgwylir iddo gael ei drosglwyddo i'r Tîm Atal Digartrefedd yn ystod Chwarter 3 2022. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i nodi eiddo arall y gellir ei ddefnyddio ar gyfer llety dros dro brys, sydd wedi'i gydnabod yn yr adroddiad archwilio mewnol.

4.5. Rydym yn gwbl ymwybodol mai'r rhwystr mwyaf i fynd i'r afael â digartrefedd yw diffyg tai fforddiadwy neu gymdeithasol fel llety camu ymlaen parhaol sy'n addas ar gyfer anghenion y grŵp cleient. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y twf uchel

yn y niferoedd ar y gofrestr Un Llwybr Mynediad at Dai (ULlMaD). Un ffordd o gefnogi hyn yw i gynyddu portffolio Tai Cymunedol y Cyngor naill ai drwy ail-bwrpas i stoc bresennol neu ddatblygu unedau newydd ac yn ystod 2022 - 2023 rydym yn disgwyl nifer fawr o eiddo Tai Cymdeithasol i ddod yn rhan o'r ffrwd cyllido gan y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill. Dylai hyn helpu i leihau'r rhestr aros ULlMaD a gobeithio gweld nifer o aelwydydd digartref yn derbyn llety parhaol.

4.6. Nid ydym am ddatrys y mater o ddod o hyd i lety camu ymlaen parhaol heb ddod o hyd i eiddo yn y Sector Rhentu Preifat. Yn 2020 roeddem wedi dechrau ar gynllun peilot i sicrhau eiddo drwy Gynllun Prydlesu Preifat Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2022 roedd Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r cynllun sydd bellach yn cynnwys mwy o gymhelliant i Landlordiaid, gan gynnwys telerau prydlesu o rhwng 5 ac 20 mlynedd, hefyd grantiau adnewyddu hyd at £25 mil ar gyfer eiddo. Mae gennym darged ar gyfer prydlesu 80 eiddo dros y 5 mlynedd nesaf, mae'r cynllun hefyd yn cynnwys darpariaeth refeniw ar gyfer gwasanaethau cynnal tenantiaeth, ôl-ddyledion rhent a staffio.

4.7. Mae'r Tîm Aml Ddisgyblaeth o fewn Atal Digartrefedd nawr wedi'i weithredu'n llawn. Mae'r cynnydd a wnaed a'r ymdrechion parhaus i weithredu arferion newydd wedi'i gydnabod o fewn yr adroddiad archwilio. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu fframwaith monitro ac ansawdd a pherfformiad cadarn ond mae hyn wedi'i ohirio ychydig, yn bennaf oherwydd aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae pob dinesydd sy'n rhan o ddarpariaeth digartrefedd statudol yn derbyn sgwrs Beth sy'n Bwysig llawn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles: ac mae'r aelod mwyaf priodol o'r MDT yn cael ei ddyrannu i'r unigolyn / aelwyd. Bydd cefnogaeth barhaus yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dynodedig unwaith y bydd tenantiaeth barhaol wedi'i chyrchu i leihau'r risg o ddigartrefedd cylchol.

4.8. Mae'r adnodd staff sy'n gweithio ar draws Atal Digartrefedd wedi cynyddu o 20 i 28 yn dilyn ailstrwythuro yn 2021 gyda rhai staff yn cael eu gwasgaru o fewn gwasanaethau eraill y Cyngor: Tai Cymunedol; Un Pwynt Mynediad (SPoA); a Gwasanaethau Ieuenctid, gan adeiladu ar seilwaith a chryfderau o fewn y gwasanaethau hyn i ddatblygu ein cefnogaeth i ddinasyddion yn ogystal â staff yn cael budd o fynediad i ystod ehangach o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Rydym yn defnyddio seilwaith sefydledig Tai Cymunedol i reoli eiddo ac rydym yn gweithio tuag at gynyddu ein portffolio o eiddo sector rhentu preifat i roi terfyn

ar ddigartrefedd. Mae'r bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Plant ac Atal Digartrefedd yn cefnogi pobl ifanc cymhleth, mae darpariaeth arbenigol 24/7 yn cael ei gomisiynu ar gyfer rhai o'r Plant Sy'n Derbyn Gofal.

4.9. Mae Sir Ddinbych yn derbyn £7.3miliwn o Grant Cymorth Tai (GCT) gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth cysylltiedig â thai, mae darpariaeth wedi'i chaffael yn defnyddio GCT yn gorfod cefnogi Papur Polisi Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru: Dull Ail-gartrefu Cyflym ar gyfer Cymru, gyda disgwyliad ein bod yn caffael ystod o wasanaethau gan sefydliadau arbenigol a'r Trydydd Sector. Nid yw'r Grant yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu elfennau statudol o ddigartrefedd. Drwy'r GCT, rydym yn ariannu Gweithiwr Cefnogi Tenantiaeth i weithio gyda thenantiaid o fewn Tai Cymunedol CSDd i atal troi allan a risg o ddigartrefedd, hefyd yn peilotio rôl debyg i weithio gydag aelwydydd rydym wedi eu cefnogi i roi terfyn ar eu digartrefedd o fewn y SRhP. Mae holl ddarpariaeth GCT yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cefnogi ein gweledigaeth i roi diwedd ar ddigartrefedd yn unol â'r Dull RRH. Yn ystod Ebrill 2022 roeddem wedi dyfarnu'r Contract Ymyrraeth Gynnar ac Atal i alluogi ymyrraeth fuan i gefnogi dinasyddion i gynnal neu ganfod tenantiaeth amgen ymhell cyn iddynt gyrraedd y cam atal digartrefedd.

4.10. Roedd adolygiad gwreiddiol Archwilio Mewnol o Ddarpariaeth Llety ar gyfer y Digartref yn rhoi cyfradd sicrwydd isel oherwydd y nifer o beryglon/faterion a godwyd. Roedd dilyniant yn 2021 yn nodi bod nifer o feysydd wedi eu datblygu ers ein hadolygiad gwreiddiol, fodd bynnag, roedd camau yn cymryd yn hirach i'w cyflawni na'r rhagwelir, roedd y raddfa sicrwydd isel yn parhau. Roedd adolygiad dilynol pellach wedi dod i'r casgliad ym mis Mehefin 2022 (Atodiad 1)

4.11. Roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud nawr bod y model MDT wedi'i weithredu, mae'r tîm bron yn llawn. Roedd ein hadolygiad dilynol diwethaf wedi dod i'r casgliad bod 37% o gamau wedi eu gweithredu'n llawn, gyda 60% o gamau yn ymwneud â risgiau/materion mawr yn weddill. Ar hyn o bryd, roedd 72% o gamau wedi eu gweithredu'n llawn, gydag 20% o gamau yn weddill, yn ymwneud â risgiau/materion mawr. Felly, rydym bellach yn darparu graddfa sicrwydd canolig. Mae adolygiad dilynol pellach wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2022

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Dai a Digartrefedd yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol 2017-22: Mae pawb wedi'i gefnogi i fyw mewn tai sy'n bodloni eu hanghenion; Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i ddatblygu annibyniaeth a gwytnwch; mae pobl iau yn dymuno byw a gweithio yma a chael y sgiliau i wneud hynny.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae darparu gwasanaethau Digartrefedd yn cael ei ariannu drwy gyllideb graidd ar gyfer yr elfen statudol o'r gwasanaeth a Grant Cymorth Tai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer elfennau anstatudol fel y Tîm Amlddisgyblaethol a'r gefnogaeth estynedig ehangach gan wasanaethau arbenigol e.e. trais domestig a chamdriniaeth, cymorth i deuluoedd a chyngor am ddyledion. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ei derbyn gan y Cyngor llawn ym mis Chwefror 2022, gyda chyhoeddiad terfynol ym mis Ebrill 2022, mae'n cynnwys 7 blaenoriaeth a chynllun gweithredu yn ei gysylltu i'r Strategaeth Dai a Digartrefedd a'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a'i adolygu'n chwarterol gan y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid yw'n berthnasol gan nad oes angen gwneud penderfyniad o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid yw'n berthnasol gan nad oes angen gwneud penderfyniad o'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.2 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Archwilio o ran adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas ag amcanion polisi a thargedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol.